# Atodiad 1 – eitem Gyfundrefn Addysg Drochi

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 13/02/25

**Cwestiynau Ychwanegol.**

- **Beth yw'r disgwyliadau ynglŷn â'r lefelau? Beth yw'r rhesymau am yr anghydbwysedd rhwng y rhai sy'n cyrraedd y lefel gyntaf ond nid yr ail?**

  Defnyddir Meincnodau'r llinyn Llafaredd yn y Fframwaith Llythrennedd Genedlaethol i fesur cynnydd dysgwyr yn ystod ac ar ddiwedd y cwrs trochi. Mae cyflawni gofynion lefel 2 yn gofyn am feistrolaeth o gyfuniad o fedrau ieithyddol ar lefel eithaf annibynnol. Gan fod man cychwyn y dysgwyr yn amrywio a phob unigolyn yn unigryw ac yn datblygu ar gyflymder gwahanol nid yw pawb yn y garfan yn llwyddo i gyflawni'r gofyn. Fodd bynnag mae bron iawn pawb yn llwyddo i gyflawni gofynion lefel 1.

- **Sut ydych yn monitro a mesur effaith y cwtogiad yn nyddiau'r cyfnod trochi ar arferion ieithyddol gweddill y disgyblion yn y prif lif?**

  Bydd adroddiad terfynol y Gwerthusiad yn cyfarch y cwestiwn hwn.

- **Oes yna drefniadau mewn lle yn yr ysgolion i alluogi'r disgyblion i integreiddio? Beth yw nod a manteision cael y disgyblion yn ôl yn yr ysgol ar ddydd Gwener?**

  Nod integreiddio'r dysgwyr yn y fam ysgol yn y prif-lif yw diogelu llesiant y dysgwyr a darparu cyfle iddynt gadw cysylltiad â'r fam ysgol a'u cyfoedion. Mae'n gyfle i'r ysgol a'r gyfundrefn weithio mewn partneriaeth wrth drochi'r dysgwyr, ac yn gyfle i blant yr ysgol groesawu'r newydd ddyfodiaid i'r ysgol yn wythnosol wrth iddynt dyfu mewn hyder ar eu taith fel siaradwyr newydd.

  Mae athrawon ein hysgolion yn arfer darparu gweithgareddau gwahaniaethol i blant ynghyd â pharatoi sgaffaldiau i'w cefnogi mewn gwahanol feysydd cwricwlaidd sydd yn caniatáu i'r dysgwyr integreiddio hefo eu cyfoedion yng ngweithgarwch y dosbarthiadau beth bynnag fo lefel eu gallu a'u dealltwriaeth. Mae llawer o weithgareddau ymarferol yn digwydd ar bnawn dydd Gwener hefyd yn ein hysgolion e.e. Chwaraeon, Canu a phnawn Aur sydd yn gyfle euraidd i'r plant ymuno yn y gwersi o wythnos i wythnos a hynny heb fawr ddim gwaith ychwanegol i'r athrawon baratoi.

  Gan fod y diwrnod Pontio hwn wedi ei raglennu ymlaen llaw mae'n gyfle i'r fam ysgol addasu eu hamserlen i ddarparu cyfleoedd i'r dysgwyr gymhathu eu medrau yn y Gymraeg gam wrth gam o wythnos i wythnos. Mae'n hynod o bwysig bod holl gymuned yr ysgol yn rhan o daith iaith y dysgwyr o'r cychwyn cyntaf.

- **Beth oedd y rhesymeg tu ôl i'r modd yr ymgynghorwyd cyn gwneud newidiadau i'r drefn? A gynhaliwyd asesiad effaith ieithyddol cyn gwneud y newidiadau?**

  Llesiant dysgwyr a'r angen iddynt gadw mewn cyswllt hefo eu cyfoedion a'r fam ysgol yn ystod y cwrs oedd wrth wraidd penderfyniad Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd (16/07/21) i ail strwythuro'r Unedau Trochi a chreu Cyfundrefn newydd. Nid oedd gofyn i cynnal Asesiad Effaith Ieithyddol. Roedd y Gymraeg yn cael ei chyfarch fel rhan o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb.